**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 8

## Y WEITHDREFN AR GYFER GORCHMYNION SY'N ADDASU NEU'N DIRYMU CYDSYNIAD ADEILAD RHESTREDIG

## RHAN 1

## GORCHMYNION A WNEIR GAN AWDURDODAU CYNLLUNIO

*Yr amgylchiadau pan fydd gorchmynion yn cymryd effaith*

1 Nid yw gorchymyn o dan adran 107 a wneir gan awdurdod cynllunio ond yn cymryd effaith—

(a) os caiff ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 2, neu

(b) yn unol â pharagraff 3.

*Y weithdrefn ar gyfer cadarnhau gorchmynion gan Weinidogion Cymru*

2 (1) Pan fo awdurdod cynllunio yn cyflwyno gorchymyn o dan adran 107 i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad o gyflwyno'r gorchymyn—

(a) i bob perchennog a phob meddiannydd ar yr adeilad rhestredig y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, a

(b) i unrhyw berson arall y mae'n meddwl y bydd y gorchymyn yn effeithio arno.

(2) Rhaid i'r hysbysiad bennu o fewn pa gyfnod y caiff person y'i cyflwynir iddo wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am gyfle i ymddangos gerbron person a benodir gan Weinidogion Cymru a chael gwrandawiad ganddo.

(3) Os yw person y cyflwynir yr hysbysiad iddo yn gwneud cais o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, cyn cadarnhau'r gorchymyn rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle o'r fath i'r person hwnnw a'r awdurdod cynllunio.

(4) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (2) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru gadarnhau'r gorchymyn gydag addasiadau neu hebddynt.

*Y weithdrefn i orchmynion gymryd effaith heb gadarnhad*

3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan—

(a) bo awdurdod cynllunio wedi gwneud gorchymyn o dan adran 107, a

(b) bo'r personau a ganlyn wedi hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig nad ydynt yn gwrthwynebu'r gorchymyn—

(i) pob perchennog a phob meddiannydd ar yr adeilad rhestredig y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, a

(ii) pob person arall y mae'r awdurdod yn meddwl y bydd y gorchymyn yn effeithio arno.

(2) Rhaid i'r awdurdod cynllunio (yn lle cyflwyno'r gorchymyn i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau)—

(a) cyhoeddi hysbysiad yn y ffordd a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru fod y gorchymyn wedi ei wneud,

(b) cyflwyno copi o'r hysbysiad i'r personau a grybwyllir yn is-baragraff (1)(b), ac

(c) anfon copi o'r hysbysiad at Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na 3 diwrnod ar ôl y diwrnod y'i cyhoeddir.

(3) Rhaid i'r hysbysiad bennu—

(a) o fewn pa gyfnod y caiff personau y mae'r gorchymyn yn effeithio arnynt roi hysbysiad i Weinidogion Cymru eu bod am i'r gorchymyn gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau o dan y weithdrefn ym mharagraff 2;

(b) y cyfnod, os na roddir hysbysiad o'r fath ac nad yw Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod rhaid cyflwyno'r gorchymyn iddynt i'w gadarnhau, y bydd y gorchymyn yn cymryd effaith heb gael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru ar ei ddiwedd.

(4) Os, ar ddiwedd y cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3)(a)—

(a) nad yw unrhyw berson y mae'r gorchymyn yn effeithio arno wedi rhoi hysbysiad i Weinidogion Cymru fel y'i crybwyllir yn is-baragraff (3)(a), a

(b) nad yw Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo bod rhaid cyflwyno'r gorchymyn iddynt i'w gadarnhau,

mae'r gorchymyn yn cymryd effaith ar ddiwedd y cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3)(b).

(5) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3)(a) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y caiff yr hysbysiad o wneud y gorchymyn ei gyhoeddi am y tro cyntaf.

(6) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3)(b) fod o leiaf 14 o ddiwrnodau ar ôl diwedd y cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3)(a).